Costau

O fewn Cynllun Tai Gofal Ychwanegol, bydd costau rhent, tâl gwasanaeth a phryd bwyd. Byddwch yn talu am eich defnydd o nwy, trydan a dŵr yn eich fflat eich hun. Gallwch wneud cais am Fudd-dal Tai i'ch helpu i dalu rhai o'r costau.

Hefyd, bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn codi tâl am unrhyw ofal ychwanegol ac ati, os yw'n berthnasol.

Charges

Within an Extra Care Scheme there will be a rent charge, service charge and a meal charge. You will pay for your own usage of gas, electric and water in your own flat. You can apply for Housing Benefit to assist in meeting some of the costs.

If applicable, there will also be a charge by Social Services for any additional care etc.

Caiff ein cynlluniau eu hadeiladu mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol.

Ein cynlluniau presennol yw:

- Penucheldre, Caergybi, Ynys Môn
- Llys Awelon, Rhuthun, Sir Ddinbych
- Awel y Coleg, Y Bala, Gwynedd
- Hafod y Gest, Porthmadog, Gwynedd (yn cael ei adeiladu ar hyn o bryd)
- Dinbych, Sir Ddinbych (yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd)

Our schemes are built in partnership with local authorities.

Our current schemes are:

- Penucheldre, Holyhead, Anglesey
- Llys Awelon, Ruthin, Denbighshire
- Awel y Coleg, Y Bala, Gwynedd
- Hafod y Gest, Porthmadog, Gwynedd (currently being built)
- Denbigh, Denbighshire (currently in development stage)

Mwy o wybodaeth

Os hoffech wneud cais neu dderbyn gwybodaeth pellach, cysylltwch â:

Further information

If you would like to make an application or would like further information, please contact:

Grŵp Cynefin
Tŷ Silyn
Penygroes
Caernarfon
LL54 6LY
Ffôn/Phone: 0300 111 2122
Ffacs/Fax: 0300 111 2123
post@grwpcynefin.org
www.grwpcynefin.org

Cwestiynau a ofynnir yn aml ar gael ar y wefan

Frequently asked questions are available on our website

Os ydych angen y ddogfen hon mewn fformat gwahanol e.e. ar dâp, mewn Braille, cofiwch gysylltu â Grŵp Cynefin

If you require this information in a different format e.g. on tape, in Braille, please contact Grŵp Cynefin

TAI GOFAL YCHWANEGOL

EXTRA CARE HOUSING

Grŵp Cynefin

Mwy na thai • More than housing

Beth yw Tai Gofal Ychwanegol?

Wrth fynd yn hŷn, bydd llawer ohonom angen gofal a chefnogaeth ychwanegol er mwyn gallu byw'n annibynnol.

Tai Gofal Ychwanegol yw darpariaeth ar gyfer pobl sy'n dymuno byw yn eu cartrefi eu hunain gyda'r budd o gael gofal a chefnogaeth o fewn y cartref.

Mewn cynllun Gofal Ychwanegol, byddwch yn cadw eich annibyniaeth ond yn elwa o fod â gofal a chefnogaeth ar gael i chi 24 awr o'r dydd yn eich cartref.

What is Extra Care Housing?

As we get older, many of us will require some additional care and support in order for us to live independently.

Extra Care Housing is a provision for people who want to live in their own homes with the benefit of on-site care and support.

In an Extra Care Scheme, you will retain your independence but will benefit from 24 hour care and support on-site.

Ynglŷn â Tai Gofal Ychwanegol?

- Bydd gennych eich drws ffrynt eich hun – chi fydd yn penderfynu pwy sy'n dod i mewn
- Gall cyplau fyw gyda'i gilydd
- Mae mynediad cadair olwyn i'r adeilad
- Gallwch ymuno mewn gweithgareddau cymdeithasol
- Gallwch reoli eich arian eich hun
- Mae pryd o fwyd canol dydd ar gael
- Cyfleusterau cymunedol o'r radd flaenaf gan gynnwys trin gwallt, ystafelloedd triniaeth, ystafelloedd hobïau, cyfleusterau TG, golchdy, lolfeydd a gerddi diogel
- Mae'n rhoi sicrwydd a thawelwch meddwl i chi

About Extra Care Housing

- You will have your own front door – you decide who comes in
- Couples can live together
- Buildings are wheelchair accessible
- You can join in social activities
- You can control your own finances
- A midday meal is available
- State of the art communal facilities including hairdresser, treatment rooms, hobby rooms, IT facilities, laundry, lounges and secure gardens
- You have security and peace of mind

Sut mae gwneud cais ar gyfer Tai Gofal Ychwanegol?

Bydd angen i chi gwblhau ffurflen gais Tai Gofal Ychwanegol sydd ar gael drwy fynd i'r wefan **www.grwpcynefin.org** neu drwy gysylltu â Grŵp Cynefin i drefnu fod y wybodaeth yn cael ei anfon atoch.

How can I apply for Extra Care Housing?

You will need to complete an Extra Care Housing application form available online at **www.grwpcynefin.org** or contact Grŵp Cynefin who will send you the information.

Sut y bydd y fflatiau'n cael eu dyrannu?

Mae cytundeb mewn lle gyda phob awdurdod lleol, hefyd, wrth ddyrannu, ystyrir yr anghenion gofal a chefnogaeth, anghenion tai a ffactorau eraill fel lleoliad y fflat.

How will the flats be allocated?

There is an agreement in place with each local authority, also, allocations will be made taking into consideration the care and support needs, housing needs and other factors, such as the location of the flat.